**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/01260/20

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru

8 Mehefin 2020

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mai, ynglŷn â chyfarfod y Pwyllgor y des i iddo ar 7 Mai, yn gofyn y cwestiynau canlynol.

**Marchnadoedd**

**1. Faint o gynnydd a wnaed wrth ddatblygu cynlluniau cyllido i gefnogi'r sectorau cig eidion a chig oen?**

Mae'r Grŵp Cydnerthedd Amaethyddol, y Grŵp Ffocws Defaid a Grwpiau Ffocws Cig Eidion yn parhau i gwrdd. Mae'r grwpiau hyn yn allweddol wrth ddeall y pwysau sydd ar y diwydiant ar bob lefel, a bydd fy swyddogion yn parhau i rannu'r syniadau sy'n dod i'r amlwg â'r grwpiau hyn, ynghyd a senarios ar gyfer cynllunio.

**Cig eidion**

Mae'r tueddiadau presennol yn y farchnad cig eidion yn dangos gwelliant graddol, ac ar hyn o bryd mae trafodaethau â rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar ddadansoddiadau o'r sector ar gyfer y tymor hwy. Mae £1.2 miliwn wedi cael ei ddyrannu drwy'r Gronfa wedi'i Chlustnodi i gynnal ymgyrch genedlaethol i gwsmeriaid, sef ‘Beth Amdani gyda Chig Eidion’. Mae’n cael ei lansio gan AHDB, Quality Meat Scotland a Hybu Cig Cymru (HCC). Y nod yw cyrraedd 85 y cant o aelwydydd y DU a sicrhau enillion gwerth tair gwaith y buddsoddiad. Mae'r ymgyrch yn gyd-ymateb i’r heriau y mae'r gadwyn cyflenwi cig eidion yn eu hwynebu o ganlyniad i COVID-19, sydd wedi gweld y galw am friwgig eidion yn yr archfarchnadoedd yn cynyddu'n sylweddol. Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar gig eidion i ddechrau, wedyn bydd y ffocws yn cael ei symud i gig oen wrth i'r cyflenwad gynyddu yn gynnar yn yr haf. Mae HCC hefyd yn cynnal ymgyrchoedd i roi hwb i'r sector, gan ddefnyddio ryseitiau cyfredol a gweithio gyda chogyddion uchel eu proffil i gynhyrchu rhagor o gynnwys ar ffurf fideo. Mae'r adborth cychwynnol yn awgrymu bod y ddwy ymgyrch farchnata yn cael effaith gadarnhaol ar batrymau prynu – ar y cyd ag eitemau hyrwyddo mewn archfarchnadoedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd hyn yn helpu i liniaru rhai o'r problemau ynglŷn â masnachu'r holl garcas a welwyd ychydig o wythnosau yn ôl.

**Cig Oen**

Rwy'n gwybod bod prisiau cig oen wedi dechrau gostwng, ond i raddau helaeth mae hyn yn unol â phatrymau tymhorol pan fydd rhagor o gig oen ar y farchnad o fis Mehefin ymlaen. Mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod tymor ŵyna 2020 wedi bod yn dda, ac am fod y tywydd wedi bod yn braf hefyd, disgwylir y bydd llawer o gig oen o ansawdd uchel yn cyrraedd y farchnad yn yr wythnosau nesaf. Mae'r farchnad allforio yn ansicr ac mae ymadael â'r UE heb gytundeb yn parhau i fod yn bosibl. Bydd y gwaith paratoi helaeth a wnaed ar gyfer y posibilrwydd o ymadael heb gytundeb yn 2019 yn rhoi sylfaen i adeiladu arni os nad oes cytundeb ar ddiwedd y cyfnod pontio hwn.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gydag HCC i fonitro prisiau a chynllunio ar gyfer pob senario, a chwrddais â bwrdd HCC ar 4 Mehefin i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith cynllunio mae HCC yn ei wneud.

Bydd y gwaith paratoi helaeth ar wnaed ar gyfer y posibilrwydd o ymadael heb gytundeb yn 2019 mewn perthynas â defaid yn rhoi sylfaen i adeiladu arni os oes angen, ac yn ein paratoi ar gyfer y posibilrwydd o ymadael heb gytundeb ar ddiwedd y cyfnod pontio hwn.

**2. I ba raddau y bydd ffermwyr yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cadernid Economaidd diwygiedig?**

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd yn unigryw i Gymru, a dim ond drwy wneud cryn ymdrech i ail-flaenoriaethu ein cyllidebau y mae wedi bod yn bosibl. Mae'r Gronfa yn canolbwyntio ar fusnesau y mae'r argyfwng presennol wedi cael effaith niweidiol iawn ar eu hincwm. Roedd cam cyntaf y Gronfa yn boblogaidd iawn, a chafodd ei hatal ar ddydd Llun 27 Ebrill ar ôl derbyn bron i 10,000 o geisiadau. Bydd ffermydd sydd wedi arallgyfeirio eu busnesau i wneud pethau ar wahân i gynhyrchion amaethyddol cynradd a chynhyrchu bwyd yn cael gwneud cais yn ystod cam 2, yn dibynnu ar gymhwysedd, pan fydd y Gronfa yn ailagor ar ddiwedd mis Mehefin.

**3. Dywedodd undebau'r ffermwyr wrth y Pwyllgor fod Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi rhoi ar waith becyn cymorth gwerth £25 miliwn ar gyfer y sectorau llaeth, cig eidion a chynhyrchion addurnol. Allwch chi rannu â'r Pwyllgor eich safbwynt diweddaraf ar y cymorth y byddwch yn ei wneud ar gael ar gyfer y sectorau hyn yng Nghymru? Beth yw eich safbwynt diweddaraf ar gyflwyno cymorth storio preifat ar gyfer cynhyrchion bwyd-amaeth, gan gynnwys cig eidion a chig oen?**

Gwnaeth y sector llaeth, sy'n chwarae rôl bwysig yn y gwaith o fwydo'r genedl, deimlo effeithiau'r pandemig ar unwaith, wrth i'r sectorau gwasanaethau bwyd a lletygarwch gau. Ar 9 Mai, cyhoeddais gyllid ar gyfer ffermwyr llaeth yng Nghymru y mae'r amgylchiadau eithriadol yn y farchnad, o ganlyniad i COVID-19, wedi cael yr effaith drymaf arnynt. Ar 3 Mehefin, cyhoeddais i fanylion Cynllun Cefnogi'r Sector Llaeth yng Nghymru. Bydd y cynllun yn agor ar gyfer ceisiadau ar 18 Mehefin 2018, i helpu ffermwyr y mae'r amgylchiadau eithriadol yn y farchnad, o ganlyniad i COVID-19, wedi cael yr effaith drymaf arnynt, a bydd ar agor tan 14 Awst 2020. Mae Cynllun Cefnogi'r Sector Llaeth, a gafodd ei ddatblygu ar y cyd â'r diwydiant, wedi cael ei lunio i helpu ffermwyr i barhau i gynnal eu capasiti cynhyrchu yn ystod y cyfnod heriol hwn. I fod yn gymwys ar gyfer y Gronfa, bydd rhaid i ffermwyr ddangos bod y pris a gawsant am eu llaeth yn ystod mis Ebrill a mis Mai wedi gostwng 25% ar gyfartaledd, o'i gymharu â mis Chwefror 2020. Bydd hyd at £10,000 ar gael ar gyfer ffermwyr cymwys, i wneud iawn am tua 70% o'r incwm a gollwyd ganddynt er mwyn eu

helpu i barhau i dalu costau sefydlog ac i barhau i gynnal eu capasiti cynhyrchu, heb unrhyw effeithiau ar lesiant anifeiliaid a'r amgylchedd.

Ar 11 Mai ailagorodd canolfannau gerddi yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu'r sector cynhyrchion addurnol.

Mae prisiau cig eidion wedi gwella rhywfaint yn ddiweddar. Yn ôl data ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 23 Mai, er eu bod tua £42 y pen pwysau marw yn is na'r un cyfnod y llynedd, mae prisiau'n gwella.

Byddwn yn derbyn rhagor o ddadansoddiadau gan gyrff lefi maes o law, gan gynnwys adroddiad gan Qantar ar batrymau prynu manwerthwyr.

**Cymorth Storio Preifat**
Mae cynlluniau Cymorth Storio Preifat ar gyfer powdwr llaeth, menyn, caws, cig eidion, cig oen a chig gafr wedi cael eu cyhoeddi gan y comisiwn Ewropeaidd. Agorodd y cynlluniau hyn ar 7 Mai. Mae'r cynlluniau yn caniatáu tynnu cynhyrchion o'r farchnad dros dro, am gyfnod o ddau i dri mis o leiaf hyd at gyfanswm o bump i chwe mis.

**4. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod cynnyrch Cymru a chynhyrchion lleol yn cael eu defnyddio i fwydo'r rhai yn ein cymdeithas sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhaid sy'n gwarchod eu hunain gartref o herwydd y pandemig?**

O farnu wrth y trafodaethau cychwynnol â darparwyr mewn perthynas â'r cynllun bocsys bwyd, cymerwyd y gofyniad i ddefnyddio bwyd lleol o ddifri. Mae'r bocys bellach yn cynnwys nifer o gynhyrchion o Gymru, gan gynnwys Tatws Puffin, Bara Braces, Bisgedi Burtons, suddion Radnor Hills a Llaeth Cymreig. Yn ogystal, mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal cynllun peilot yn paratoi a dosbarthu eu bocsys eu hunain i drigolion, gyda'r cynnwys yn dod o gyfanwerthwyr lleol. Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei menter Cywain, yn rhoi cartrefi gofal ledled Cymru mewn cysylltiad â chyfanwerthwyr lleol pan fyddant yn cael trafferth cael bwyd o'u cyflenwyr arferol. Hefyd drwy Cywain rydym wedi gweithio i sicrhau cefnogaeth ar gyfer banciau bwyd annibynnol, i'w helpu i ddefnyddio'r gadwyn fwyd leol, gan gynnwys cyfanwerthwyr Cymru.

**Taliadau i ffermwyr**

**5. Mae undebau'r ffermwyr wedi amcangyfrif bod nifer uchel o ffermwyr nad ydynt wedi derbyn taliadau o dan gynlluniau Piler 2. Allwch gadarnhau eich dealltwriaeth ddiweddaraf o ran nifer y ffermwyr nad ydynt wedi derbyn taliad, ac amlinellu'r ffordd rydych yn bwriadu sicrhau bod ffermwyr yn derbyn eu taliadau cyn gynted ag y bo modd?**

Mae cynnydd da yn cael ei wneud wrth brosesu'r hawliadau o dan gynlluniau Piler 2, ac mae pob ymdrech yn cael ei gwneud i wneud gweddill y taliadau mor fuan â phosibl. Mae Taliadau Gwledig Cymru (RPW) yn gwneud taliadau Piler 2 ar gyfer 2019 yn unol â chyfnod talu newydd y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r cyfnod talu yn parhau tan 30 Mehefin, a disgwylir y bydd pob hawliad ar wahân i'r rhai mwyaf cymhleth yn cael ei brosesu erbyn y dyddiad hwnnw.

**6. Gwnaethoch ddweud y byddech yn ystyried estyn y Cynllun Grantiau Sengl y tu hwnt i'r dyddiad cau ar 19 Mai, ac ymrwymo i drafod y mater hwn ag undebau'r ffermwyr. Allwch chi roi'r diweddaraf ar y mater hwn, ynghyd â'ch barn o ran y posibilrwydd y bydd angen symud dyddiadau cau ar gyfer cynlluniau taliadau eraill?**

Roedd dyddiad cau'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ar 19 Mai ar gyfer cyflwyno dogfennau ategol i'w gwerthuso; nid oedd yn ddyddiad cau penodol ar gyfer ceisiadau. Cyflwynodd y rhan fwyaf o fusnesau ffermio rai o'r dogfennau angenrheidiol cyn y dyddiad cau, a bydd RPW yn derbyn gweddill y dogfennau nes ymlaen. Ni wnaeth nifer fach o fuddiolwyr gyflwyno unrhyw ddogfennau o gwbl, a bydd RPW yn cysylltu â'r rhain i ofyn a ydynt am barhau â'u cais am grant.

Mae'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno Ffurflen y Cais Sengl 2020, ceisiadau i Drosglwyddo Hawliau Cynllun y Taliad Sengl, hawliadau Grantiau Bach Glastir a Datganiadau o Ddiddordeb yng Nghynllun Creu Coetir Glastir wedi cael eu hestyn mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos wrth iddi ddatblygu yn ystod yr wythnosau nesaf, a byddwn yn parhau i weithredu darpariaethau Force Majeure/Amgylchiadau Eithriadol pan fydd hynny'n briodol.

**7. Roedd y diffyg tryloywder yn y trafodaethau am arallgyfeirio taliadau datblygu gwledig yn destun siom i undebau'r ffermwyr. Allwch chi egluro pam nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn y trafodaethau am y mater hwn.**

Mae dadansoddiadau o'r heriau mewn Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu mewn perthynas â Rhaglen Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd 2014–20 yn parhau, er na wnaed unrhyw benderfyniadau terfynol hyd yn hyn. Mae trafodaethau â phartïon sydd â diddordeb, gan gynnwys undebau'r ffermwyr a rhanddeiliaid eraill, wedi dechrau. Rydym wedi'i gwneud yn glir ein bod am weithio gydag undebau'r ffermwyr ac eraill wrth inni ystyried sut i sicrhau bod y Rhaglen Datblygu Gwledig yn parhau i gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau, ac ategu'r broses o adfer o COVID-19. Mae fy swyddogion wedi cwrdd ag undebau'r ffermwyr ac mae cyfres o drafodaethau wedi cael eu cynllunio ar gyfer y misoedd nesaf. Ar hyn o bryd rwy'n cwrdd â'r undebau bob wythnos bron i drafod yr holl amrediad o broblemau sy'n effeithio ar y diwydiant.

**8. Wrth gyfeirio at y cyllid ychwanegol o ganlyniad i Adolygiad Bew, gwnaethoch chi ddweud nad oedd yr arian wedi cael ei roi gan Lywodraeth y DU hyd yn hyn. Allwch ddweud wrth y Pwyllgor pryd roedd y tro diwethaf ichi drafod y mater hwn â Gweinidog yn Llywodraeth y DU? Beth yw eich dealltwriaeth ddiweddaraf o'r ffordd y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu?**

Nid wyf wedi cynnal unrhyw drafodaethau â Gweinidogion y DU ynghylch y mater hwn. Yn ddiweddar cydsyniais i Reoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 gael eu gwneud ar 9 Mehefin, a fydd yn cynyddu cyfran Cymru o BPS y DU 2020 yr holl £2.6 miliwn a nodwyd ar gyfer 2020/21 gan Adroddiad yr Arglwydd Bew. Bydd £2.6 miliwn arall yn dilyn yn 2021/22.

**9. Beth yw eich safbwynt diweddaraf mewn perthynas â defnyddio taliadau wedi eu modiwleiddio i gefnogi taliadau uniongyrchol i ffermwyr?**

Cafodd taliadau wedi eu modiwleiddio eu disodli gan drosglwyddiadau piler yn 2014, lle y gallai 15% o gyllid Piler 1 gael ei ddefnyddio ar gyfer mesurau datblygu gwledig bob blwyddyn.

Ym mis Rhagfyr derbyniais sicrwydd y byddai £243 miliwn o gyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer BPS 2020, gan gadw'r cyllid ar yr un lefel ag a ddarparwyd ar gyfer BPS 2019. Penderfynais barhau i drosglwyddo 15% (£41 miliwn), ar yr amod y bydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid arall yn ei le. Yn dilyn y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr

2020, o dan delerau'r cytundeb ymadael, gwneir y cyllid ar gael i gefnogi'r economi a'r amgylchedd gwledig o'r flwyddyn ariannol 2021/22.

**Cymorth ar gyfer y Diwydiant Llaeth**

**10. Pryd yr ydych yn disgwyl y bydd tystiolaeth ar gael ynglŷn ag effeithiolrwydd cynllun AHDB i hybu'r galw am laeth ymhlith defnyddwyr? A fyddwch yn adrodd i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau cyn gynted ag y bo modd?**

Lansiwyd #milkyourmoments AHDB ar 6 Mai. Yn ôl y ffigurau mae'r ymgyrch yn mynd yn dda. Mae AHDB wedi cadarnhau y bydd y gwerthusiad o ganfyddiadau'r ymgyrch gyfan ar gael bum wythnos ar ôl i'r ymgyrch ddod i ben ar 31 Gorffennaf 2020.

**11. Pan ddaethoch i gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Mai, roeddech chi wedi amcangyfrif y bydd tua 100 o ffermwyr yn gallu manteisio ar gynllun cefnogi'r sector llaeth. Mae undebau'r ffermwyr wedi dweud wrth y Pwyllgor y gallai'r ffigur fod yn agosach at 180. Beth yw eich dealltwriaeth ddiweddaraf o ran nifer y ffermwyr a allai fanteisio ar y cynllun? O ystyried y bydd angen i'r arian ar gyfer y cynllun ddod o gyllidebau presennol, a yw'r gwahaniaeth yn y ffigurau posibl hyn yn peri pryder ichi?**

Rwy'n cysylltu ag undebau'r ffermwyr yn rheolaidd i drafod y problemau y mae'r sector llaeth yn eu hwynebu, ac mae fy swyddogion mewn cysylltiad agos â'r Grŵp Cydnerthedd Amaethyddol a'r Grŵp Ffocws Llaeth.

Nid wy'n gallu rhoi ffigur pendant ichi ar hyn o bryd. Rwy'n annog pob ffermwr sy'n credu ei fod yn gymwys i gyflwyno cais ar-lein ynghyd â'r dogfennau ategol erbyn y dyddiad cau.

**12. Yn y cyfarfod ar 7 Mai gwnaethoch chi ddweud wrth y Pwyllgor y byddai cyllid o dan y cynllun yn cael ei dalu o fewn 7–10 diwrnod i'r cynllun gael ei lansio. Allwch chi ddweud wrth y Pwyllgor sawl ymgeisydd a dderbyniodd gyllid o fewn yr amserlen a nodwyd gennych?**

**13. Yn ogystal, gwnaethoch chi ddweud wrth y Pwyllgor y byddai cyfnod o 5-6 wythnos ar gyfer gwneud cais i'r cynllun. O ystyried y ffaith ei bod yn bosibl y bydd effaith COVID-19 a'r cyfyngiadau symud yn parhau am gryn amser, allwch chi gadarnhau a fydd y cyfnod ar gyfer gwneud cais yn cael ei estyn?**

Bydd y cynllun yn agor ar gyfer ceisiadau ar 18 Mehefin, gan gefnogi'r ffermwyr y mae'r amgylchiadau eithriadol yn y farchnad, o ganlyniad i COVID-19, wedi cael yr effaith drymaf arnynt. Bydd y cyfnod yn parhau tan 14 Awst 2020. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i gynhyrchwyr ddarparu'r dogfennau ategol perthnasol.

Mae prosesyddion yn talu cynhyrchwyr yn ôl-weithredol. Bydd agor y cyfnod ar gyfer gwneud cais yng nghanol mis Mehefin yn galluogi ffermwyr i gasglu eu holl gyfrifon ar gyfer mis Chwefror, mis Ebrill a mis Mai i ategu eu cais. Bydd canllawiau ar gael ar-lein i helpu gyda'r broses hon.

Ar yr amod bod yr holl ddogfennau angenrheidiol wedi cael eu cyflwyno a'u gwirio, gall ymgeiswyr llwyddiannus ddisgwyl taliad o fewn deg diwrnod.

**Profi Gwartheg am TB**

**14. Dywedodd undebau'r ffermwyr wrth y Pwyllgor fod rhywfaint o ddryswch yn bosibl mewn perthynas â'r wybodaeth sy'n dod oddi wrth yr Hyb TB, yn benodol diffyg eglurder ynghylch a yw rhai rheolau'n berthnasol yng Nghymru neu Loegr. A yw'r un pryderon gennych chi ac os ydynt, sut y byddant yn derbyn sylw?**

Mae swyddogion wedi cymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd â Gweinyddiaethau'r DU i gytuno ar y cyngor presennol a roddir mewn perthynas â phrofi am TB yn ystod y pandemig COVID-19. Yn ystod yr adeg hon, mae'r holl ganllawiau a chyngor ar y newidiadau hyn wedi cael eu cyhoeddi ar yr Hyb TB, i sicrhau bod ein cyfathrebu yn gyson ar draws y gwahanol weinyddiaethau. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae fy swyddogion wedi derbyn adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ynglŷn â'r canllawiau clir sydd ar gael ar yr Hyb TB mewn perthynas â chyngor sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio ar yr Hyb TB i sicrhau bod ei broffil yn uwch yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys trafod ag undebau'r ffermwyr, y proffesiwn milfeddygol a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru i ddiwygio'r cynnwys sy'n berthnasol i Gymru ac, yn y pen draw, sicrhau bod yr holl ganllawiau sy'n benodol i Gymru yn cael eu cyfieithu.

**Garddwriaeth**

**15. Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer cynyddu cynhyrchu garddwriaethol yng Nghymru yng nghyd-destun y pandemig COVID-19? Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd hyn pan fydd y pandemig drosodd?**

Er bod y sector garddwriaeth yn rhan fach o'n diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru, mae'r sector yn darparu llawer o fanteision sy'n helpu i ddiwallu amrediad eang o anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Mae prosiectau Tyfu Cymru, Garddwriaeth Cymru a Tyfu Fyny yn cael eu hariannu gan Raglen Datblygu Gwledig Cymru.

- Mae Tyfu Cymru yn cynnig cyllid o 100% ar gyfer hyfforddiant i'r pwrpas a hyfforddiant wedi'i deilwra, ac mae'n cefnogi busnesau sydd â'r un amcanion i weithio gyda'i gilydd ar faterion cyffredin ac i ysgogi'r sector garddwriaeth masnachol yng Nghymru i dyfu.
- Mae Garddwriaeth Cymru yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad, ac yn cyfeirio at bartneriaid yn rhad ac am ddim i helpu busnesau garddwriaeth yng Nghymru i ddatblygu.
- Mae prosiect Tyfu Fyny wedi cael ei greu i atgyfnerthu'r sector tyfu cymunedol llai yng Nghymru.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Tyfu Cymru i nodi'r prinder llafur tymhorol ar gyfer y cynaeafu yng Nghymru. Yn ystod y pandemig COVID-19 mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod busnesau gwledig a busnesau sy'n dibynnu ar y tir, gan gynnwys ffermydd a busnesau ffermio, yn gallu cael mynediad at weithwyr allweddol a pharhau i weithredu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Lantra Cymru i ddatblygu gwasanaeth paru sgiliau ar-lein. Bydd y gwasanaeth yn cysylltu busnesau â gweithwyr posibl a chanddynt y sgiliau perthnasol, yn ogystal â chyfeirio at yr ymgyrch 'Pick for Britain' a lansiwyd yn ddiweddar.

**Llygredd Amaethyddol**

**16. Dywedodd undebau'r ffermwyr eu bod wedi cael eu synnu, eu siomi a'u digalonni gan y rheoliadau a gafodd eu cynnig gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â**

**llygredd amaethyddol. Gwnaethant ddweud bod y rheoliadau'n 'bellgyrhaeddol' ac yn 'Ddraconaidd', a gofyn i Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn gael ei baratoi. A wnewch ymrwymo i gyhoeddi unrhyw asesiad o'r fath o'ch cynigion?**

Mae fy swyddogion wedi bod yn mynychu cyfarfodydd misol Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol, gyda chynrychiolwyr undebau'r ffermwyr, ers mis Ionawr 2017. Mae cyfarfodydd grŵp gorchwyl a gorffen ychwanegol wedi cael eu cynnal â'r un rhanddeiliaid, mewn perthynas â'r rheoliadau arfaethedig a datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bellach mae dros 40 o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal. Felly, ni ddylai ehangder y broblem o lygredd amaethyddol, ein rhwymedigaethau statudol a rhyngwladol a'r dull rheoleiddio arfaethedig fod yn syndod.

Mae cofnodion y sesiwn dystiolaeth ar 19 Mai yn awgrymu bod cynrychiolwyr y diwydiant yn parhau i wadu maint y broblem hon a'r effaith niweidiol mae arferion amaethyddol gwael yn ei chael ar ein hamgylchedd. Mae undebau'r ffermwyr wedi galw i fesurau gwirfoddol i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol gael eu cyflwyno, gyda'r rheoliadau wrth gefn os nad ydynt yn llwyddiannus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi gweithredu gwirfoddol er cryn amser. Mae'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da wedi bod ar waith ers bron i 30 mlynedd, Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn canolbwyntio ar weithredu gwirfoddol i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol ers 2009, ac mae cryn arian wedi cael ei roi i ffermwyr, gan gynnwys drwy Glastir a'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae rhaglen Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn rhoi cyngor ac arweiniad i ffermwyr i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol ers blynyddoedd lawer.

Mae achosion o lygredd amaethyddol yn parhau i ddigwydd ledled Cymru ar raddfa annerbyniol. Bydd angen cyfres o fesurau, gan gynnwys mentrau gwirfoddol, cymorth ariannol a chyngor ac arweiniad i helpu'r diwydiant i ddod yn fwy cynaliadwy, a bydd rheoleiddio'n elfen hanfodol.

Mae dau ddrafft o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael eu rhannu â rhanddeiliaid hyd yn hyn, gan gynnwys undebau'r ffermwyr. Cafodd y dogfennau eu rhannu'n gyfrinachol, gan y gallai rhyddhau'r wybodaeth sydd ynddynt, wrth i'r asesiad gael ddatblygu, fod yn gamarweiniol. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag unrhyw reoliadau pan fyddant yn cael eu gosod gerbron y Senedd yn unol â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru.

**17. Dywedwyd wrthym eich bod wedi rhoi sicrwydd i undebau'r ffermwyr na fyddech yn cyflwyno rheoliadau nes bod y pandemig COVID-19 wedi dod i ben. Eglurwyd mai dyna oedd y golau gwyrdd yn system goleuadau traffig Llywodraeth Cymru ar gyfer y pandemig. Allwch chi gadarnhau mai dyma yw eich bwriad?**

Mae'r system goleuadau traffig yn cynrychioli'r camau bras i ddangos sut y gallwn ni ddechrau codi'r cyfyngiadau symud. Ni fwriedir iddynt fod yn gynhwysfawr, ac rydym yn ymgynghori â'r sectorau perthnasol wrth ddatblygu'r manylion penodol.

**Ffermio Cynaliadwy a'n Tir**

**18. Allwch chi egluro'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â chynigion Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, gan gynnwys a yw'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r cynigion?**

Mae COVID-19 wedi rhoi pwysau ar adnoddau ar draws Llywodraeth Cymru, ond rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyhoeddi Papur Gwyn eleni, a fydd yn gosod y sylfaen ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn ystod tymor nesaf y Senedd.

Cafodd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ei gyhoeddi ar 6 Mai.

Mae COVID-19 wedi cael effaith ar ein cynlluniau cydlunio presennol. Rydym wedi estyn yr arolwg cydlunio a'r cofrestru un-i-un un mis tan ddiwedd mis Mehefin, er mwyn cynyddu niferoedd. Mae'r amserlen ar gyfer llacio'r cyfyngiadau symud wedi golygu na fydd yn bosibl cynnal gweithdai un-i-un yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae Mentor a Busnes yn datblygu cynigion i gynnal gweithdai rhithwir ym mis Gorffennaf. Mae cyd-lunio'n canolbwyntio ar ddatblygu'r agweddau mwy ymarferol ar y cynllun, a bydd trafodaethau yn y dyfodol yn bosibl pan fydd yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu.

**Bwyd**

**19. Beth yw eich asesiad o gost y cyfyngiadau symud ar y sector cynhyrchu a gweithgynhyrchu bwyd?**

Mae'n dal i fod yn rhy gynnar i gynnal asesiad cywir o effaith y cyfyngiadau symud ar y sector bwyd a diod, a bydd elfen o ansicrwydd i unrhyw asesiad am fod yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu a'i werthu yng Nghymru wedi'i integreiddio â gweddill y DU. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod yr effaith yn amrywio, yn dibynnu ar beth mae'r busnesau'n ei gynhyrchu a lleoliad eu marchnadoedd.

Effeithiwyd ar fusnesau sy'n gysylltiedig â'r sectorau cyfanwerthu a gwasanaethu o ganlyniad i'r diwydiant lletygarwch a thwristiaeth yn cael ei gau'n llwyr, ynghyd â galw is o lawer am arlwyo sector cyhoeddus mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. Mae cau tafarnau, siopau coffi, bwytai a chadwyni bwyd cenedlaethol wedi cael effaith ar werthiannau llaeth a thoriadau premiwm o gig coch. Mae'r effeithiau wedi cael eu gwaethygu mewn rhai achosion gan y ffaith nad yw marchnadoedd allforio wedi gallu derbyn y toriadau cig nad ydynt yn boblogaidd yn y farchnad ddomestig.

Mae'r busnesau sy'n cyflenwi'r sector manwerthu wedi gweld y galw am eu cynhyrchion yn cynyddu. Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ystod y 12 wythnos a ddaeth i ben ar 19 Ebrill, roedd yr holl werthiannau nwyddau groser ledled y DU wedi codi 9.1%, ac yng Nghymru yn ystod pedair wythnos olaf y cyfnod hwn roedd gwerthiannau wedi codi dros 10.7%. Mae siopau cyfleustra a nwyddau a archebir ar-lein wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn gwerthiannau, i fyny 40% a 43% yn y drefn honno. Mae adroddiadau storïol gan weithgynhyrchwyr yn awgrymu bod y galw yn parhau i fod dros 100% o'r hyn sy'n arferol ar gyfer adeg y flwyddyn.

Ar ddechrau'r pandemig, roedd gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr yn adrodd am gyfraddau absenoldeb ar gyfer cyflogeion o hyd at 15%. Yn ôl pob golwg mae hyn wedi dychwelyd i lefelau arferol. Hefyd mae costau gweithredu busnes ychwanegol, gydag arferion gweithio newydd, staff newydd a chynnydd sylweddol yn nifer y nwyddau elw isel sy'n cael eu harchebu ar-lein i'w cludo i'r tŷ. Mae pobl yn prynu llai o fwyd cyfleus, elw uchel, a rhagor o gynhyrchion elw isel i'w defnyddio i wneud prydau bwyd o'r cynhwysion crai. Mae gweithgynhyrchwyr wedi lleihau nifer yr eitemau maent yn eu gwneud at ddibenion hyrwyddo, ac wedi lleihau nifer yr opsiynau sydd ar gael o ran maint pecyn, er mwyn eu galluogi i gynhyrchu cymaint ag y bo modd. Mae hyn wedi cael effaith ar y sector cyfleustra yn benodol, ac mae'n bosibl bod tynnu nwyddau at ddibenion hyrwyddo wedi cyfrannu at gostau uwch am fasged.

Mae Arloesi Bwyd Cymru wedi cynnal arolwg o'r effaith ar 250 busnes yn cynrychioli pob rhan o'r sector:

- Dywedodd 39% o ymatebwyr y bu effaith negyddol ddifrifol ar werthiannau a chwsmeriaid. Yr effaith fwyaf sylweddol fu mewn perthynas â staffio, logisteg a chaffael cynhwysion.
- Dywedodd 12% o gwmnïau fod gwerthiannau wedi cynyddu.
- Roedd 46% o gwmnïau wedi arallgyfeirio er mwyn gwerthu eu cynhyrchion mewn ffordd wahanol (e.e. gwerthu yn uniongyrchol i gwsmeriaid), ond mae rhai yn pryderu am gynaliadwyedd y model busnes hwn yn y tymor hwy.
- Dywedodd dros 90% o fusnesau a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod yn gwybod am y cynlluniau cymorth a oedd ar gael. Nid oedd busnesau am fynd i ddyled, ac nid oedd y rhan fwyaf o fusnesau yn bwriadu defnyddio benthyciadau neu gyllid amgen arall.

**20. Mae'r pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud canlyniadol wedi cael effaith ddinistriol ar y sectorau lletygarwch a gwasanaethau bwyd a diod. Pa gymorth mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei roi i'r sectorau hyn wrth iddynt baratoi i ailagor pan fydd y cyfyngiadau symud yn cael eu llacio yng Nghymru?**

Yr her gyntaf wrth gynllunio'r cymorth ar gyfer y sectorau lletygarwch a gwasanaethau bwyd a diod yw casglu a dadansoddi'r dystiolaeth ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd o fewn yr is-sector hwn. Yr her uniongyrchol yw canolbwyntio'r cymorth a chefnogi sector bwyd a diod Cymru i adfer. Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i nodi'r problemau'n fanwl a chefnogi busnesau yn ystod y dyddiau heriol hyn. Y dasg gyntaf yw deall y sefyllfa a helpu i sefydlogi busnesau; wedyn gall busnesau ddechrau adfer. Yn hyn o beth mae Croeso Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector lletygarwch ar sut i ailagor yn ddiogel. Mae'r Bwrdd Rheoli Twristiaeth yn cwrdd â'r diwydiant bob wythnos i nodi a thrafod problemau ac i rannu gwybodaeth

**21. Mae Llywodraeth Cymru a llywodraethau eraill y DU wedi cymryd camau penodol i leihau'r problemau o ran cael bwyd i'r archfarchnadoedd, gan gynnwys llacio rheolau cynllunio mewn perthynas â chludo ac oriau agor, a'r rheolau mewn perthynas ag oriau gyrwyr. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y rheolau hyn yn parhau i gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn effeithiol, ac nad ydynt ar waith yn hwy nag sydd angen nac yn hwy nag a fwriedid?**

Cafodd y mesurau eu cyflwyno am gyfnod dros dro ar adeg pan oedd y gadwyn cyflenwi bwyd o dan straen dybryd. Mae materion fel oriau gyrwyr yn fater a gedwir yn ôl, ac mae Llywodraeth Cymru yn trafod â DEFRA i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hadolygu yn ôl yr angen. Mae'r angen parhaus am fesurau lliniaru eraill, ynghyd â'u heffeithiau, yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd Fforwm Manwerthwyr y DU a'r Grŵp Cysylltu ar Argyfyngau yn y Gadwyn Fwyd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai gweithredu'n ofalus sydd orau. Bydd tynnu'r mesurau'n rhy gynnar yn lleihau'r hyblygrwydd gweithredol yn y gadwyn gyflenwi, ac ni allwn ni ddiystyru rhagor o broblemau yn y gadwyn gyflenwi, yn dibynnu ar sut mae'r argyfwng COVID-19 yn datblygu.

**Prosesu Bwyd**

**22. Allwch chi roi diweddariad ar y gwaith rydych wedi'i wneud i gynyddu'r capasiti prosesu yng Nghymru?**

Yn ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor, gwnaethom amlinellu nifer o brosiectau ymchwil a buddsoddiadau rydym wedi eu gwneud yn ddiweddar i ddatblygu cyfleusterau prosesu yng Nghymru mewn modd strategol. Nid yw'r angen am y gwaith hwn wedi newid o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Rydym yn parhau i geisio cyfleoedd newydd i nodi bylchau posibl drwy gysylltiadau â mentrau fel Arloesi Bwyd Cymru, Prosiect Helix a Cywain. Mae ein rhwydwaith o glystyrau wedi bod yn annog cydweithredu rhwng busnesau ar lefel leol a lefel genedlaethol cyn ac yn ystod y pandemig.

Byddai datblygu capasiti prosesu ychwanegol yn cefnogi'r mentrau presennol hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'n ffordd mae COVID-19 yn effeithio ar batrymau prynwyr a chadwyni cyflenwi. Mae'n rhy gynnar i fod yn sicr a fydd rhai newidiadau'n parhau yn y tymor hir, ond byddwn ni'n ystyriol o'r ffordd y gallai tueddiadau sy'n newid fod yn berthnasol i gapasiti prosesu a chynhyrchu.

**Cadwyni Cyflenwi Bwyd**

**23. Ydych yn fodlon bod diogelu'r cyflenwad bwyd a phwysigrwydd cadwyni cyflenwi lleol yn derbyn digon o sylw yn Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ac ym mholisïau bwyd Llywodraeth Cymru?**

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod diogelu'r cyflenwad bwyd a chadwyni cyflenwi lleol yn derbyn digon o sylw yn Ffermio Cynaliadwy a'n tir ac mewn polisïau bwyd. Mae'r polisïau bwyd yn ategol. Roedd ymgynghoriad yr haf diweddaf ar strategaeth fwyd newydd yn cynnwys pwysigrwydd cryfhau clystyrau a rhwydweithiau busnes, ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion drwy gydol y gadwyn gyflenwi.

Mae'n bwysig bod diogelu'r cyflenwad bwyd yng Nghymru a'r ffordd mae cadwyni cyflenwi bwyd yn gweithredu a sut y gallant ddatblygu yn cael ei drafod, gan ystyried y ffaith bod y gwaith o gyflenwi bwyd a diogelu'r cyflenwad bwyd yng Nghymru yn gwbl ynghlwm wrth y ffordd mae'r DU yn cael ei chyflenwi. Mae cadwyni cyflenwi yn estyn dros ffiniau rhyngwladol a'r hyn sy'n cyfrif yw'r ffin allanol rhwng y DU a gwledydd eraill, llifoedd masnach, ymfudiad gweithwyr, arian cyfred ac effeithiau tariffau. Yn y DU nid yw'r system fwyd yn cydnabod ffiniau mewnol, ac nid yw Cymru yn endid gwahanol i weddill y DU yn hyn o beth. Mae bwyd crai, bwyd wedi'i brosesu, bwyd wedi'i lawn gynhyrchu, cynhwysion a'r cydrannau sydd eu hangen i brosesu a chynhyrchu bwyd i gyd yn symud o amgylch y DU heb ystyried ffiniau mewnol. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gwestiynau ynghylch sut i wella cynhyrchiant a chynaliadwyedd busnesau bwyd cynradd ac eilaidd, sut i gryfhau a datblygu llwybrau i'r farchnad, sut i ychwanegu gwerth at gynhyrchion, a sut i ymdrin â'r mater o fudd y cyhoedd mewn perthynas â deietau iachach a fforddiadwyedd bwyd i bobl ar incwm cyfyngedig.

Fel rhan o'r DU, ac am y rhesymau a roddwyd uchod, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn diogelu cyflenwad bwyd y DU. Yn yr un modd â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, rydym yn gweithio gyda DEFRA i asesu pa mor ddiogel yw cyflenwad bwyd y DU, ac rydym yn cael y cyfle i wneud sylwadau ar gynlluniau ac asesiadau.

**24. Pa waith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas â chadwyni cyflenwi i leihau effeithiau carbon? Pa gyfleoedd sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig COVID-19?**

Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei rhaglenni cymorth i fusnesau yn y sector bwyd, yn gallu cynnig amrywiaeth o gyngor i fusnesau i helpu i leihau effeithiau carbon. Drwy Arloesi Bwyd Cymru a Phrosiect Helix rydym yn gallu rhoi cyngor technegol ar gynhyrchu mewn modd mwy effeithlon a lleihau gwastraff. Mae'r Ganolfan Gweithgynhyrchu Uwch a gafodd ei

sefydlu yn ddiweddar o'r farn bod y sector bwyd a diod yn faes allweddol, a bydd yn gweithio gyda busnesau ar fesurau i wella cynhyrchiant, a fydd o ganlyniad yn arwain at leihau ein hôl troed carbon. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda rhwydweithiau a chlystyrau o fusnesau bwyd i annog cydweithio rhwng busnesau i ategu cadwyni cyflenwi lleol, unwaith eto gyda'r potensial i leihau ein hôl troed carbon.

Rydym wedi gweld cydweithio lleol o ganlyniad i'r pandemig, er enghraifft, cyfanwerthwyr yn cyflenwi cartrefi gofal a siopau bach yn cyflwyno gwasanaethau cludo i'r tŷ.

**Brexit**

**25. Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar eich cynlluniau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio?**

O ganlyniad i'r pandemig COVID-19 mae llawer o swyddogion a oedd yn gweithio i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod bontio wedi cael ei symud i weithio ar ein hymateb i'r argyfwng. Mae swyddogion yn gweithio yn galed i ymateb i COVID-19, wrth hefyd barhau i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Mae hyn ar adeg pan fydd ansicrwydd parhaus ynghylch ein gwaith paratoi. Mae'n annhebyg y bydd unrhyw eglurder ynghylch gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw gytundeb masnach yn dod i'r amlwg tan yn hwyrach o lawer yn y flwyddyn, ac mae hyn yn gwneud paratoi ar gyfer terfyn amser ar ddiwedd y flwyddyn yn heriol iawn. Rwyf wedi ailadrodd galw ein Prif Weinidog am estyniad yn ystod fy nghyfarfodydd â DEFRA, ond mae Llywodraeth y DU yn gwrthod ystyried hyn. Fel y dywedodd ein Prif Weinidog, 'Nid yw'n bosibl, wrth frwydro yn erbyn COVID-19, sicrhau bod anghenion a buddiannau Cymry yn derbyn y sylw priodol yn y broses negodi'. Mae busnesau mewn sefyllfa enwedig o anodd. Maent yn ymdrin ag effeithiau COVID-19 ar yr un pryd ag ystyried y dyfodol wrth i'r mesurau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng gael eu llacio. Mae gofyn i fusnesau baratoi ar gyfer trefniadau masnachu ar yr un pryd yn gam yn rhy bell.

**26. Yr amserlenni ar gyfer y canlynol:**

- **Ymgynghoriad ar y Strategaeth Tlodi Tanwydd**
  O ganlyniad i'r argyfwng COVID-19 roedd yn briodol imi ohirio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd – roeddwn yn gobeithio dechrau'r ymgynghoriad yn fuan ar ôl imi roi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i dlodi tanwydd. Mae'r oedi hwn wedi rhoi cyfle defnyddiol i ailddilysu'r cynllun yng ngoleuni COVID-19, ac i sicrhau bod yr holl faterion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor wedi cael eu hystyried a, lle bo hynny'n briodol, wedi derbyn sylw yn y cynllun newydd cyn dechrau ymgynghoriad cyhoeddus. Rwy'n disgwyl i'r cynllun drafft gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Medi fan bellaf, a bydd yn destun ymgynghoriad 12 wythnos. Rwy'n disgwyl i'r cynllun terfynol gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Chwefror 2021 fan bellaf.

- **Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**
  Y bwriad oedd cyflwyno'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i'r Senedd i'r aelodau graffu arno ym mis Ebrill, ond ni fu hyn yn bosibl o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Rydym wir yn gobeithio y bydd y Senedd yn gallu craffu ar y Fframwaith pan fydd yr aelodau'n dod yn ôl ar ôl toriad yr haf. Nod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yw cytuno ar amserlen newydd ar gyfer cynhyrchu Fframwaith, gyda dyddiad posibl ar gyfer ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2021. Bydd rhaid i'r dyddiadau hyn gael eu cadarnhau maes o law, wrth i'r amserlenni ar gyfer Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru gael eu cadarnhau.

- **Cyfraith Lucy**
  Mae ein newidiadau arfaethedig mewn perthynas â thrydydd partïon yn gwerthu cŵn a chathod bach yn mynd y tu hwnt i'r ymgyrch dros Gyfraith Lucy a deddfwriaeth a gyflwynwyd yn Lloegr, felly doeth fyddai peidio â gwneud cymariaethau. Teitl dros dro ein Rheoliadau fydd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021).

  Wrth i'r pwysau o ganlyniad i COVID-19 leihau, ac er bod llawer gennym i'w wneud, mae'n dda gennyf ddweud fy mod wedi rhoi caniatâd i swyddogion yn ddiweddar i ddechrau ar y broses o ddrafftio deddfwriaeth newydd mewn perthynas â thrydydd partïon yn gwerthu cŵn a chathod bach, ac i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y camau nesaf.

  Diben yr ymgynghoriad yw galluogi darparu rhagor o dystiolaeth ar gyfer rhanddeiliaid allweddol a phobl Cymru, gan gynnwys plant, er mwyn iddynt cael dweud eu dweud. Rydym wedi ystyried sut y gallwn wneud hyn yn ystod y cyfyngiadau symud, ac mae fy swyddogion yn archwilio cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn modd cadarnhaol. Ond teg dweud, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o weithiau ei bod am weithredu'r newidiadau deddfwriaethol hyn ac, oherwydd y diddordeb yn y mater hwn, mae ymwybyddiaeth uwch o'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni. Felly, rydym yn ystyried hyd yr ymgynghoriad yn ofalus. Yn dibynnu ar y manylion a'r daith ddeddfwriaethol, byddwn ni am i'r Rheoliadau gael eu gosod a'u gwneud cyn gynted ag y bo modd, gyda dyddiad dod i rym sy'n rhoi diogon o amser i wneud newidiadau i fusnesau ac arferion gorfodi.

**Rasio Colomennod**

**27. Yn ddiweddar derbyniodd y Pwyllgor ohebiaeth oddi wrth y Gymdeithas Frenhinol Colomennod Rasio ac Undeb Colomennod Dychwel Cymru. Maent yn awyddus i drafod y camau y gellir eu cymryd i ganiatáu rasio colomennod, o ystyried bod y cyfyngiadau'n cael eu llacio mewn perthynas â chwaraeon eraill yn yr awyr agored. Maent yn awgrymu y byddai rhoi awdurdodau i'w haelodau i ddechrau hyfforddi eu colomennod yn barod ar gyfer rasys nes ymlaen yn fan cychwyn da. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech godi'r mater hwn gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet, gan gynnwys y Dirprwy Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Diwylliant.**

Ar 1 Mehefin, cafodd y Rheoliadau Coronafeirws eu diwygio i ganiatáu cynnal unrhyw fath o weithgaredd yn yr awyr agored yn lleol. Caniateir hyfforddi colomennod rasio ar yr amod ei fod yn cael ei gynnal yn lleol, fel arfer o fewn pum milltir i gartref unigolyn, a bod y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol a hylendid yn cael eu dilyn.

Yn gywir
Lesley

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs